



## COFNODION | MINUTES



**Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council (CCLIME)**  
**Llyfrgell Benllech Library**  
**27.7.2026 @ 19:00**

**Cynghorwyr:**  
**Councillors:**

Iwan Kellett (IK) (Cadeirydd / Chair)  
John Humphreys (JH) (Is-Gadeirydd / Vice Chair)  
Huw G Owen (HGO)  
Wenda Owen (WO)  
Barbara Price (BP)  
Sioned Wyn (SW)  
Rhys Jones (RhJ)  
Olwen Green (OG)  
Kevin Griffiths (KG)  
Ieuan Williams (IW)  
Rhodri Owen (RhO)

**Clerc:**  
**Clerk:**

Laura Sutton (LS)

**Cyfieithydd:**  
**Translator:**

Rhiannon Elis-Williams

**Ymddiheuriadau | Apologies**

Eira Fôn Parry (EFP)  
Gwyneth Davies (GD)  
Rhian Mair Jones (RhMJ)

**Datganiad o diddordeb | Declaration of Interest**

OG – 7.2

**Cyfanogiad y Cyhoedd | Public Participation**

Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac ar gael i ateb cwestiynau'r aelodau mewn perthynas â Chais Cynllunio 4.1.1 | *A member of the public was present and available to answer members' questions in relation to Planning Application 4.1.1.*

**Cofnodion Blaenorol | Previous Minutes 22/06/2026**

Cynigiwyd (WO), eiliwyd (OG) a chytunwyd yn unfrydol derbyn y cofnodion hyn fel cofnod cywir | *It was proposed (WO), seconded (OG) and agreed unanimously to accept these minutes as a true record.*

## **4. Cynllunio | Planning**

### **4.1.1 - Ymgynghoriad Cynllunio | Planning Consultation FPL/2026/141**

Roedd y perchennog y cwmni yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau | *The business owner was present to answer any questions.*

**Dim gwrthwynebiad | No objection**

### **4.1.2 - PENDERFYNIAD | DECISION - FPL/2026/65 – Parc Delfryn Gwrthodwyd | Refused**

### **4.1.3 - Ymgynghoriad cyn ymgeisio | pre-application consultation - Ysgubor Llwyd Farm**

Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Barn yr aelodau yw bod maint, graddfa a natur y datblygiad arfaethedig yn rhy sylweddol ar gyfer y safle ac nad yw'n cyd-fynd â chymeriad gwledig na thirwedd yr ardal leol. Ystyrir y byddai'r datblygiad yn newid cymeriad y safle yn sylweddol ac yn cael effaith weledol niweidiol ar y dirwedd ac ar osodiad yr adeiladau hanesyddol cyfagos. Mae'r Cyngor hefyd o'r farn nad yw'r cynnig yn bodloni gofynion Polisi TWR 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, gan nad yw'r datblygiad yn integreiddio'n briodol i'r dirwedd nac yn diogelu nodweddion a chymeriad yr ardal | *The Council objects to this planning application. Members consider that the size, scale and nature of the proposed development are excessive for the site and are not in keeping with the rural character or landscape of the local area. The Council considers that the proposal would result in a significant change to the character of the site and would have an adverse visual impact on the surrounding landscape and the setting of nearby historic buildings. The Council also considers that the proposal does not comply with Policy TWR 3 of the Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan, as it does not integrate satisfactorily into the landscape or protect the landscape characteristics and character of the surrounding area.*

**Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn | Resolved to object to this planning application.**

## **5. Materion y Cyngor a'r Gymuned | Council & Community Matters**

### **5.1 Trafod ychwanegu garreg enw wrth gyffyrdd Llanfair ME a Lôn Bwlch | Discuss adding name stones at the Llanfair ME and Lôn Bwlch junctions.**

Trafododd y Cyngor y cynnig i osod cerrig enw wrth gyffyrdd Llanfair M.E. a Lôn Bwlch. Penderfynwyd gohirio'r eitem tan gyfarfod mis Medi er mwyn caniatáu i'r Clerc gael dyfynbrisiau. Cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor, eu bod yn hapus i fwrw ymlaen â'r prosiect, yn amodol ar dderbyn dyfynbrisiau addas | *The Council discussed the proposal to install name stones at the Llanfair M.E. and Lôn Bwlch junctions. It was resolved to defer the item until the September meeting to allow the Clerk to obtain quotations. The Council agreed, in principle, that it was happy to proceed with the project, subject to satisfactory quotations being received.*

### **5.2 Adolygiad o Bolisïau | Review of Policies**

- Polisi Chwythu'r Chwiban | *Whistleblowing Policy*
- Polisi Cydraddoldeb | *Equality Policy*

Penderfynwyd adolygu'r Polisi Chwythu'r Chwiban a'r Polisi Cydraddoldeb, ac ni nodwyd unrhyw newidiadau. Cytunwyd i ddiweddaru dyddiad yr adolygiad | *Resolved to review the Whistleblowing Policy and the Equality Policy. No amendments were required, and it was agreed to update the review date.*

6. Cyllid | Finance

6.1 Trafodion Diweddar | Recent Transactions

|            |      |                                                                           |                            |            |           |
|------------|------|---------------------------------------------------------------------------|----------------------------|------------|-----------|
| 01/06/2026 | S/O  | Pensiwn   Pension                                                         | COSTAU STAFF / STAFF COSTS | -£491.12   | £3,247.02 |
| 02/06/2026 | TF   | TF i fewn / in                                                            | TRANSFER                   | £3,000.00  | £6,247.02 |
| 12/06/2026 | PYMT | DH Williams Park repairs ( securing benches and fixing loose fence panel) | Expenses                   | -£180.00   | £6,067.02 |
| 12/06/2026 | d/d  | Plan.com (Ffôn)                                                           | Expenses                   | -£25.97    | £6,041.05 |
| 23/06/2026 | S/O  | Cyflog y Clerc Salary                                                     | COSTAU STAFF / STAFF COSTS | -£1,969.95 | £4,071.10 |
| 24/06/2026 | PYMT | Caru Benllech (s.137)                                                     | Expenses                   | -£200.00   | £3,871.10 |
| 29/06/2026 | d/d  | NATWEST CC                                                                | Expenses                   | -£38.28    | £3,832.82 |
| 30/06/2026 | TF   | TF i fewn / in                                                            | TRANSFER                   | £3,000.00  | £6,832.82 |
| 30/06/2026 | PYMT | RoSPA Archwiliad y Parc   Park Inspection                                 | Expenses                   | -£114.00   | £6,718.82 |
| 30/06/2026 | PYMT | Cyfieithydd   Translator                                                  | Expenses                   | -£84.40    | £6,634.42 |
| 30/06/2026 | S/O  | Pensiwn   Pension                                                         | COSTAU STAFF / STAFF COSTS | -£491.12   | £6,143.30 |

- Balans wrth gefn | Reserve Balance: £55,708.36
- Balans Cerdyn Credyd | Credit Card Balance 03/07/2026: £0

Adolygodd y Cyngor y datganiadau banc ac roedd yn fodlon eu bod yn adlewyrchu'n gywir drafodion ariannol a balansau'r Cyngor. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd IW ac eiliwyd gan y Cynghorydd JH | *The Council reviewed the bank statements and was satisfied that they accurately reflected the Council's financial transactions and balances. This was proposed by IW and seconded by JH.*

6.2 Cymodi Banc | Bank Reconciliation

Adolygwyd y cysoniad banc a chafodd ei lofnodi gan y Cynghorydd OG | *The bank reconciliation was reviewed and signed by Cllr OG.*

6.3 Cymeradwyo Taliadau/Pryniannau | Payments/Purchases for Approval

- Cymeradwyodd y Cyngor daliad o **£605.83** i Archwilio Cymru mewn perthynas ag archwiliad cyfrifon 2022–2023 | *The Council approved a payment of £605.83 to Audit Wales in respect of the 2022–2023 audit.*
- **Cymeradwyodd y Cyngor ddau ddyfynbris gan Wicksteed Leisure:**
  - **£846.15** (heb gynnwys TAW) ar gyfer atgyweirio'r arwyneb diogelwch mewn sawl man o amgylch yr offer chwarae lle mae'r tir wedi suddo ychydig, gan greu perygl posibl o faglu.
  - **£580.27** (heb gynnwys TAW) ar gyfer amrywiol waith atgyweirio i'r offer chwarae yn dilyn arolygiad RoSPA.

Nodwyd nad oedd unrhyw un o'r atgyweiriadau'n rhai brys, ond cytunwyd ei bod yn arfer da eu cwblhau gan eu bod wedi'u nodi yn ystod yr arolygiad.

- **The Council approved two quotations from Wicksteed Leisure:**

- **£846.15** excluding VAT to repair the safety surfacing in various areas around the play equipment where the ground has sunk slightly, creating a potential trip hazard.
- **£580.27** excluding VAT for various repairs to the play equipment following the RoSPA inspection.

*It was noted that none of the repairs were considered urgent; however, the Council agreed that they should be completed as they had been identified during the inspection.*

- Dywedodd y Clerc ei bod wedi gwahodd pedwar contractwr i gyflwyno dyfynbrisiau ar gyfer atgyweirio'r meinciau. Derbyniwyd un dyfynbris gan D.H. Williams am **£900**, a chytunodd y Cyngor fod y pris yn uwch na'r disgwyl. | *The Clerk reported that four contractors had been invited to submit quotations for repairs to the benches. One quotation was received from D.H. Williams for £900, and the Council agreed that the cost was higher than expected.*  
Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn adolygu'r dyfynbris ac yn cysylltu â chontractwyr lleol eraill i geisio cael dyfynbrisiau pellach | *It was resolved that the Clerk would review the quotation and approach other local contractors to obtain additional quotations.*

## **6.4 Adolygu Tendrau | Review Tenders**

Cyflwynodd y Pwyllgor Prosiectau a'r Clerc eu hargymhelliad yn dilyn adolygiad manwl o'r tendr a dderbyniwyd. Roedd adroddiad caffael wedi'i baratoi ac ar gael i'r Cyngor, yn amlinellu'r broses dendro a'r dull gwerthuso a ddefnyddiwyd.

Nodwyd bod chwe chwmni arbenigol mewn meysydd chwarae wedi'u gwahodd i dendro. Ni ymatebodd un cwmni, nid oedd un arall yn gallu darparu'r fanyleb ofynnol, ac nid oedd tri chwmni'n gallu cyflwyno tendr erbyn y dyddiad cau nac ymrwymo i gwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen ofynnol. Pentagon Play oedd yr unig gwmni i gynnal ymweliad safle ac mae'n gwmni sefydledig â phrofiad perthnasol. Argymhellodd y Pwyllgor Prosiectau y dylid dyfarnu'r contract i Pentagon Play.

### **Trafododd y Cyngor y cynnig yn fanwl a chytunwyd:**

- Y dylid eithrio'r llwybr her pren o Gam 1 y prosiect a'i ailystyried fel rhan o gyfnod yn y dyfodol.
- Y dylid cynnwys y lloches, a ddyfynnwyd gan Pentagon Play am £4,995 (heb gynnwys TAW), o fewn y cynllun.
- Bod dyfynbris Pentagon Play yn cynnig y gwerth gorau am arian ar ôl cymharu â chwe dyfynbris ar wahân ar gyfer lloches/gazebo fasnachol a gafwyd gan y Clerc.

Cyflwynodd Pentagon Play ddyfynbris o £50,710 (heb gynnwys TAW) ar gyfer Cam 1 y prosiect. Gyda chynnwys y paent thermoplastig a'r lloches/gazebo, cyfanswm cost y prosiect fyddai £58,700 (heb gynnwys TAW).

Cadarnhaodd y Cyngor fod y gyllideb gyffredinol o £46,096.72 o gyllid grant a £12,603.28 o gronfeydd y Cyngor Cymuned (cyfanswm **£58,700, heb gynnwys TAW**) yn briodol ac yn ddigonol i gyflawni'r prosiect.

### **Penderfynwyd:**

- Derbyn dyfynbris Pentagon Play ar gyfer Cam 1 y prosiect.
- Penodi Pentagon Play fel y contractwr ar gyfer y prosiect.
- Cymeradwyo cynnwys y lloches a'r paent thermoplastig fel rhan o'r cynllun.

- Awdurdodi'r Clerc i gymeradwyo unrhyw gostau ategol rhesymol sy'n ofynnol i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, ar yr amod bod y costau hynny'n aros o fewn y gyllideb gyffredinol a gymeradwywyd.

*The Projects Committee and the Clerk presented their recommendation following a detailed review of the tender received. A procurement report had been prepared and made available to the Council, setting out the tender process and the evaluation methodology.*

*It was noted that six specialist playground companies had been invited to tender. One company did not respond, one was unable to provide the required specification, and three were unable to submit a tender by the deadline and/or commit to completing the project within the required timescale. Pentagon Play was the only contractor to undertake a site visit and is a well-established company with relevant experience. The Projects Committee therefore recommended that the contract be awarded to Pentagon Play.*

***The Council discussed the proposal in detail and agreed:***

- *That the wooden trim trail should be omitted from Phase 1 of the project and reconsidered as part of a future phase.*
- *That the shelter, quoted by Pentagon Play at £4,995 (excluding VAT), should be included within the scheme.*
- *That, following comparison with six separate quotations obtained by the Clerk for a commercial shelter/gazebo, Pentagon Play's quotation represented the best value for money.*

*Pentagon Play submitted a quotation of £50,710 (excluding VAT) for Phase 1 of the project. Including the thermoplastic markings and the shelter/gazebo, the total project cost would be **£58,700 (excluding VAT).***

*The Council confirmed that the overall project budget of £46,096.72 Grant Funding and £12,603.28 Community Council Funds (total £58,700, excluding VAT) remained appropriate and sufficient to deliver the project.*

***Resolved:***

- *To accept the quotation submitted by Pentagon Play for Phase 1 of the project.*
- *To appoint Pentagon Play as the contractor for the project.*
- *To approve the inclusion of the shelter and thermoplastic markings within the scheme.*
- *To authorise the Clerk to approve any reasonable ancillary costs required for the successful delivery of the project, provided these remain within the overall approved budget.*

## **7. Adroddiad y Clerc | Clerk Report**

### **7.1 Diweddariad ar Ddatblygiad yr Ardal Ieuenctid | Update on Youth Area Development**

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar ddatblygiad yr Ardal Ieuenctid. Nodwyd fod y Pwyllgor Prosiectau wedi cyfarfod ar 24 Gorffennaf i adolygu'r tendr a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect. Hysbysodd Cyngor Sir Ynys Môn y Clerc na ellir trefnu'r brydles tan fis Medi, unwaith y bydd yr ysgol wedi ailagor ac y bydd y Pennaeth a Chorff y Llywodraethwyr yn gallu ystyried y mater. Er bod hyn yn achosi oedi i'r brydles, cadarnhawyd y gall y Cyngor barhau â'r broses o ddyfarnu'r contract a chyflwyno'r cais cynllunio yn y cyfamser | *The Clerk provided an*

*update on the Youth Area Development project. It was noted that the Projects Committee met on 24 July to review the tender and consider the latest project updates. The Isle of Anglesey County Council had informed the Clerk that the lease could not be progressed until September, once the school had reopened and the Headteacher and Governing Body were able to consider the matter. Whilst this would delay the completion of the lease, it was confirmed that the Council could continue with awarding the contract and submitting the planning application in the meantime.*

## **7.2 Ymgynghorydd Cynllunio | Planning Consultant**

*Datganodd y Cynghorydd O.G. fuddiant yn yr eitem hon ac gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad | Cllr OG declared an interest in this item and left the meeting during the discussion and decision.*

Penderfynodd y Cyngor awdurdodi'r Clerc i benodi DEWIS Planning i baratoi a chyflwyno'r cais cynllunio am gost o **£1,750 (heb gynnwys TAW)**. Nodwyd fod y Clerc wedi ceisio dyfynbrisiau gan dri ymgynghorydd cynllunio a argymhellwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn. Ar ôl adolygu'r dyfynbrisiau, cytunodd y Cyngor fod cynnig DEWIS yn darparu'r gwasanaeth mwyaf cynhwysfawr, yn cynnig gwerth da am arian, ac yn glir ac yn hawdd ei ddeall | *The Council resolved to authorise the Clerk to appoint DEWIS Planning to prepare and submit the planning application at a cost of £1,750 excluding VAT. It was noted that the Clerk had obtained quotations from three planning consultancy firms recommended by the Isle of Anglesey County Council. Having reviewed the quotations, the Council agreed that DEWIS offered the most comprehensive service, represented good value for money, and provided a clear and easy-to-understand quotation.*

## **7.3 Adroddiad ar Gyflymder Traffig drwy Llanbedrgoch | Report on Speeding Through Llanbedrgoch**

Rhannodd y Clerc adroddiad monitro traffig gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Llanbedrgoch, a oedd yn crynhoi data a gasglwyd yn yr ardal. Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad | *The Clerk shared a traffic monitoring report from the Isle of Anglesey County Council for Llanbedrgoch, summarising traffic data collected within the area. The Council noted the contents of the report.*

### *Beth Mae'r Data'n Ei Ddangos | What the Data Shows*

- Mae nifer y cerbydau yn debyg yn y ddau gyfeiriad.  
*Traffic volumes are similar in both directions.*
- Mae'r cyflymder cyfartalog yn y ddau gyfeiriad tua 6–7mya yn uwch na'r terfyn cyflymder o 20mya.  
*The average speed in both directions is around 6–7mph above the 20mph speed limit.*
- Mae'r cyflymderau uchaf yn cael eu cofnodi gan gerbydau sy'n gadael y pentref, sy'n awgrymu bod gyrwyr yn cyflymu wrth adael yr ardal adeiledig.  
*The highest speeds are recorded for vehicles leaving the village, suggesting drivers accelerate as they leave the built-up area.*
- Mae'r cyflymder 85fed canradd o tua 31–32mya yn dangos bod cyfran sylweddol o yrwyr yn teithio'n llawer cyflymach na'r terfyn cyfreithiol.  
*The 85th percentile speeds of around 31–32mph indicate that a significant proportion of motorists are travelling considerably faster than the legal speed limit.*

## 7.4 Hyfforddiant CiLCA | *CiLCA Training*

Nododd y Clerc ei bod wedi sicrhau bwrsariaeth i fynychu cwrs ar-lein "Building Your CiLCA Portfolio" drwy'r SLCC, sy'n cynnwys chwe sesiwn rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2026. Nodwyd bod y bwrsariaeth wedi'i chymeradwyo gan y Cadeirydd. Croesawodd y Cyngor y cynnydd a wnaed gan y Clerc tuag at ennill cymhwyster CiLCA a chadarnhaodd ei gefnogaeth barhaus i'w datblygiad a'i hyfforddiant proffesiynol | *The Clerk reported that she had secured a bursary to attend the SLCC online "Building Your CiLCA Portfolio" course, comprising six sessions between July and December 2026. It was noted that the bursary had been approved by the Chair. The Council welcomed the Clerk's progress towards achieving the CiLCA qualification and confirmed its continued support for her professional development and training.*

## 8. Adroddiad y Cynghorydd Sir | *County Councillor Report*

Rhoddodd y Cynghorydd Sir ddiweddariad ar faterion perthnasol. Nododd y Cyngor y diweddariad | *The County Councillor provided an update on relevant matters. The Council noted the update.*

## 9. Unrhyw faterion nad ydynt ar yr agenda | *Any Additional Matters Discussed, not on the agenda.*

| <b>Materion a Godwyd</b>                                                                                                                                       | <b>Matters Raised</b>                                                                                                                                                   |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Nododd WO fod caban wedi'i leoli y tu allan i The Ship, Traeth Coch, a gofynnodd am gadarnhad bod y caniatâd priodol mewn lle ar ei gyfer.                     | <i>WO noted that a cabin has been placed outside The Ship, Red Wharf Bay, and requested confirmation that the appropriate permissions are in place.</i>                 |
| Gofynnodd BP i'r Clerc rannu manylion grantiau sydd ar gael i grwpiau cymunedol drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.                                 | <i>BP requested that the Clerk share details of grants available to community groups via the Council's social media channels.</i>                                       |
| Gofynnodd SW am ddiweddariad ynghylch y cwynion diweddar a gyflwynwyd i'r Adran Gynllunio mewn perthynas ag enwau Saesneg yn unig ar ddau safle llety gwyliau. | <i>SW requested an update regarding the recent complaints submitted to the Planning Department concerning the use of English-only names at two holiday lodge sites.</i> |

**Daeth y cyfarfod i ben am: 20:40 | *The meeting ended at: 20:40***

**Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal: 21/09/2026 | *The next meeting will be held: 21/09/2026***

**Cytunwyd gan y cyngor llawn ei fod yn gofnod cywir  
Agreed to be an accurate record by full Council: 21.9.2026**